pastwn

rhifyn 1 • haf 2004

# Buddugoliaeth Brwydr y Bandiau

NOS IAU MAI 6ed 2004 oedd un o'r nosweithiau pwysicaf yng nghalendr y sîn roc Gymraeg yma yng Ngwynedd. Yn Y Ganolfan, Porthmadog am 7 yr hwyr, cynhaliwyd cystadleuaeth ranbarthol Brwydr y Bandiau. Cystadleuaeth oedd hon ar gyfer bandiau ifanc led led y sir, a drefnwyd gan Fenter Iaith Gwynedd ar y cyd â Mentrau Iaith Cymru ac C2 gyda'r gobaith o ddarganfod yr enw mawr nesaf yng Nghymru.

Cafwyd 7 o fandiau ifanc yn perfformio set byw o 3 cân wreiddiol Gymraeg, ac roedd enwau'r bandiau yn amrywiol a diddorol dros ben. Yn y dyfodol, gwyliwch allan am: *Gola Ola, Dim Sens, Nodi, Y Di Pravinho, Bob, Black Mushrooms,* a *Cabalatchio.*

Cyflwynydd y noson oedd Lynsey Anne o C2, a bu yn arbennig o dda yn gwneud i'r bandiau deimlo'n gartrefol ar y llwyfan enfawr cyn cychwyn perfformio. Beirniad y noson oedd Gai Tomos (Mim Twm Llai), a gyda safon arbennig o uchel gan yr holl gystadleuwyr – doedd neb o'r 100 a mwy o gynulleidfa a oedd yn bresennol yn edmygu ei dasg.

Roedd y dasg yn anos hefyd oherwydd fod yn rhaid i'r beirniad farcio pob band allan o 100. Gan fod Brwydr y Bandiau yn gystadleuaeth genedlaethol drwy Gymru gyfan, fe fydd y 2 fand gyda'r marciau uchaf yn mynd ymlaen i'r drydedd rownd, gan gynrychioli Gogledd Orllewin Cymru. Bydd cyfle hefyd i'r 2 'runner up' gorau o'r holl gystadlaethau rhanbarthol drwy Gymru fynd ymlaen i'r drydedd rownd hefyd gan herio'r 2 enillydd o bob rhanbarth.

Gan nad oedd angen cynnal rownd sirol yng Ngwynedd oherwydd diffyg cystadleuwyr ym Môn a Chonwy, daeth







Huw Meredydd Roberts o C2 draw i'r noson yn Y Ganolfan ar gyfer recordio'r bandiau yn perfformio, a recordio cyfweliad rhyngddynt â Lynsey Anne. Yn y drydedd rownd bydd C2 yn darlledu setiau a recordiwyd yn y rowndiau blaenorol ar y radio, a bydd cyfle i Gymru bleidleisio i'w hoff grŵp.

Bydd y wobr i'r enillydd drwy Gymru gyfan yn cynnwys:

- Recordio sesiwn i C2 ar Radio Cymru,
- Taith gigs o amgylch Cymru efo Mentrau Iaith Cymru,
- Rhyddhau CD ar un o labeli Sain,
- Cyfle i ffilmio fideo gyda chwmni teledu Boomerang,
- Perfformio ym Maes B, Eisteddfod Casnewydd 2004.

Wel sut aeth y noson, meddech chi? *Gola Ola* oedd yn agor y gystadleuaeth gyda pherfformiad hynod o fywiog ac egnïol – mor egnïol yn wir nes i Richard y canwr bron golli ei gitar! Band o ardal Penrhyndeudraeth ydynt, a'r tair cân roc a berfformiwyd ganddynt hwy oedd *Cau'r drws ar dy ôl, Geiriau,* a *Breuddwyd.* Gellir dweud bod eu

**Digwyddiadur Gigs a Gwyliau'r Haf**

| | |
|---|---|
| 11–12:06:2004 | Gŵyl Car Gwyllt, Blaenau Ffestiniog |
| 19:06:2004 | Pesda Bach, Bethesda |
| 25:06:2004 | Gŵyl Owain Glyndŵr, Corwen |
| 16–18:07:2004 | Sesiwn Fawr, Dolgellau |
| 19–23:07:2004 | Sioe Amaethyddol, Llanelwedd |
| 31:07– 08:08:2004 | Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Casnewydd |
| 14:08:2004 | Miri Madog, Porthmadog |
| 27–30:08:2004 | Gŵyl y Faenol, Bangor |
| 03–04:09:2004 | Gŵyl Cefni, Llangefni |

harddull hwy yn debyg iawn i'r band Americanaidd *Busted*. Yn wir, gydag agoriad fel hyn, roedd hi'n argoeli'n dda i'r gystadleuaeth.

Roedd oedran y cystadleuwyr yn amrywio o 12 i 17 mlwydd oed, a'r band ieuengaf i gystadlu yn y gystadleuaeth oedd *Dim Sens*, a ymddangosodd yn ail. Band o ardal Fangor yw *Dim Sens*, a'r 3 cân a berfformiwyd ganddynt hwy oedd *Gang Sam*, *Ysgol Uffern*, a *Brodyr Bach*. Er nad oedd cytgord rhwng pob aelod o'r band ar brydiau, rhaid canmol *Dim Sens* am eu hymdrech, ac am gystadlu, a dw i'n siŵr i'r profiad o berfformio o flaen cymaint o gynulleidfa fod yn gofiadwy iawn iddynt. Yn sicr, y mae gan *Dim Sens* flynyddoedd o gystadlu eto o'u blaenau ... felly, yn sicr, gwyliwch allan amdanynt yn y dyfodol.

Y trydydd band i wneud eu hunain yn gartrefol ar y llwyfan oedd *Nodi*. Roedd pump aelod yn y band yma, yn perfformio 3 cân hynod o unigryw ac effeithiol, sef *Gwallgofi*, *Dwisho gweld chdi'n brifo*, a *Sêr yn dy lygaid*. Creodd y band yma argraff fawr arnaf, gyda'u harddull hynod wreiddiol, a dw i'n siŵr y clywn lawer mwy amdanynt yn y dyfodol agos.

*Y Di Pravinho* oedd y pedwaredd band i berfformio. O'r foment y daethant hwy ar y llwyfan, roedd hi'n amlwg fod y gynulleidfa mewn cwmni hynod ddireidus. Trowsus tri chwarter, crys T mawr llwyd, crys a thei wedi ei glymu ar ochr ei wddf oedd y canwr Sion Pennar yn ei wisgo. Yn wir, roedd awgrym o ddireidi ym mherfformiad y band yma o'r cychwyn cyntaf. Band yn canu mewn arddull tebyg iawn i *Anweledig* ydi *Y Di Pravinho* ond bod eu harddull tafod yn y foch hwy yn llawer mwy amlwg. Roeddynt yn canu 3 cân am *Y Brawd*, *Lari*, ac *Mae gen i ful*.

Gallwn ddisgrifio'r band nesaf, sef *Bob*, fel band heriol i ryw raddau. Band o Ben Llŷn a Dyffryn Nantlle yw *Bob*, ac fe ddaru nhw berfformio 3 cân sef *Bwledi Washington*, *Defaid*, a *Trio Gormod*. Er i'r band yma ymddiheuro ar ddiwedd eu perfformiad am eu defnydd cyson o iaith anweddus yn yr ail gân, dw i'n credu fod yr elfen yma o'u perfformiad wedi difetha rhywfaint ar fwyniant y gynulleidfa ohonynt, yn enwedig o ystyried bod nifer o blant, a rhai ohonynt yn ifanc iawn yn bresennol. O ystyried, fodd bynnag, mai dim ond perfformio 3







cân Gymraeg oedd unig ofynion y gystadleuaeth, dylai Mentrau Iaith Cymru ystyried ychwanegu cymal yn gwahardd defnydd o iaith anweddus mewn caneuon ar gyfer y gystadleuaeth yn y dyfodol.

Fe ymddengys fod cyfoeth o fandiau ifanc yn dechrau gwneud eu marc ar y sîn roc Gymraeg yn ardal Bangor, ac mae hyn yn newyddion da iawn, ac un o'r bandiau hynny yn wir yw Black *Mushrooms*. *Llygaid i'n ddagrau*, *VH9*, a *Rhosyn Gwyn* oedd eu 3 cân hwy, a chafwyd perfformiad hynod o fywiog ganddynt, a chyhyrau'r drymiwr yn arbennig o drawiadol!

Yr olaf i berfformio oedd *Cabalatchio* o Flaenau Ffestiniog, a da oedd gweld Blaenau yn parhau i gynhyrchu bandiau o safon, fel *Anweledig* ers talwm. *Cân y Rhyfel*, *Mr UG* a *Carnifal Freek* oedd eu 3 cân hwy, a berfformiwyd gydag emosiwn a digon o hwyl ar brydiau.

Wel, meddech chi, pwy oedd yn fuddugol? Roedd hi'n gystadleuaeth hynod o glós, ac nid oedd Gai Tomos yn or-awyddus i fynd i'r llwyfan i draddodi'r feirniadaeth wedi hir bendroni. Mynd fu raid, fodd bynnag, â'r llu o bapurau ymhob siâp a threfn ganddo!

Barn y beirniad sydd wastad yn cyfri mewn cystadlaethau o'r math yma, ac er nad oeddwn i, fel aelod tlawd o'r gynulleidfa yn hollol gytûn â'r dyfarniad, cefais fy siomi o'r ochr orau gan gyfoeth y perfformiadau, a chynnyrch y gystadleuaeth, a dw i'n siŵr y bydd llawer iawn o sôn am bob un o'r bandiau a fu'n cystadlu yn ddiweddarach yng nghyd-destun y sîn roc Gymraeg.

Hoffwn gyhoeddi, felly, wedi canmoliaeth uchel gan y beirniad, y dyfarnwyd *Gola Ola* yn enillydd y gystadleuaeth. Byddent yn mynd ymlaen i gynrychioli Gogledd Orllewin Cymru yn y rownd nesaf, gyda'r siawns o ennill llu o wobrau anhygoel. Bydd y drydedd rownd i'w chlywed ar C2 oddeutu diwedd Mehefin, felly cofiwch wrando er mwyn i chi gael pleidleisio i *Gola Ola*.

*Cabalatchio* ddaeth yn ail yn y gystadleuaeth, a byddent hwythau hefyd yn mynd drwodd i'r rownd nesaf.

Yn drydedd yn y gystadleuaeth roedd *Y Di Pravinho*, ac yn bedwaredd *Bob*. Rhaid cofio, fod gan *Y Di Pravinho* a *Bob* siawns o fynd drwodd i'r drydedd rownd hefyd, felly gwyliwch allan amdanynt!

Cyn tewi, hoffwn longyfarch yr holl fandiau am eu camp ym Mrwydr y Bandiau, a hoffwn ddymuno pob llwyddiant i'r bandiau buddugol yn rownd nesaf y gystadleuaeth. Yn sicr, o ystyried y gystadleuaeth hon mae dyfodol y sîn roc Gymraeg yn edrych yn addawol iawn ar gyfer y dyfodol.

menter iaith môn

**Yn Hyrwyddo'r Gymraeg ym Môn**

Cymorth cyfieithu (ysgrifen ac ar lafar) • Cymorth i gynnal digwyddiadau
Cymorth ar bob agwedd o redeg busnes yn ddwyieithog • Hyfforddiant a llawer mwy!
☎ (01248) 725 700 ✉ iaith@mentermon.com www.mentermon.com



# ADOLYGIAD DVD C'MON MIDFFÎLD 5




Fel mae'r teitl yn awgrymu, hwn yw'r pumed DVD sydd wedi ei ryddhau gan Sain o'r comedi mwyaf adnabyddus yn y Gymraeg, C'mon Midffîld. Ceir tair rhaglen o'r gyfres ar y DVD – **Tŷ Fy Nhad**, **Tibetans v Mowthwalians**, ag **O Mam Bach**, gan gynnwys hefyd ecstras bychan yn arbennig i'r DVD.

Y mae *Tŷ Fy Nhad* yn dechrau gyda Bryncoch wedi cael y cychwyniad mwyaf llwyddiannus yn eu hanes, wedi curo 6 gêm allan o 6 cyntaf y tymor. Ond yna mae pethau, fel y disgwyl, yn dechrau mynd o chwith. Y mae'r trafferth yn cychwyn wrth i Sandra a George ffraeo gan nad yw eu trefniant cyd-fyw yn ddelfrydol a dweud y lleiaf, gyda George a Sandra yn gorfod rhannu ystafell gydag Alsatian, sy'n perthyn i Sandra fynd yn ôl at Arthur (ei thad) gan adrodd wrtho nad yw hi'n fodlon rhannu ystafell gyda'r 'ci mawr blewog' – ac Arthur druan yn camddeall pethau yn llwyr gan feddwl mai George yw'r ci hwnnw!

Canlyniad hyn yw llythyr ffurfiol bendigedig gan Arthur i George, sydd yn gorffen efo'r frawddeg 'Cadwch draw or else. Yr eiddoch yn gywir, Arthur Picton"! Y mae pethau yn raddol waethygu rhwng y ddau nes mae George yn arwyddo i dîm y gelynion 'Y Bont' – sydd yn digwydd bod yn chwarae yn erbyn Bryncoch yn y gêm ganlynol. Mi wnâi adael i chi ffendio allan beth sy'n digwydd yn y diwedd, ond mae'r bennod yn un dda iawn os nad ymhlith y goreuon. Y mae'r olygfa Monopoli gyda Wali a'i fam yn uchafbwynt.

Ond un o'r goreuon erioed o *C'mon Midffîld* yw'r bennod nesaf ar y DVD, *Tibetans v Mowthwalians*. Dylai'r 10 munud cyntaf gael ei gyfrif fel un o'r darnau comedi gorau erioed mewn unrhyw iaith, gyda'r cellweirio rhwng chwaraewyr a rheolwyr Bryncoch a Chwmglas – tîm o Landysul sydd i fyny am gêm 'gyfeillgar' yn rhagorol. Megis Julian – sef fersiwn y de o George – yn gofyn iddo "Ti di beni?", sy'n dod a'r ateb "Nace, George dwi"! Mor syml, ond eto mor effeithiol!!

Nid oes neb o Fryncoch yn cyd-dynnu'n dda iawn gyda'u cyfeillion o'r de cyn y gêm gyfeillgar ar y dydd Sadwrn, ac eithrio Tecwyn, sy'n siarad yn ei Geredigion gorau mewn ymdrech i ymgartrefu'r tîm o Gwmglas. Nid yw'n hir cyn i bethau droi'n flêr ar, ac oddi ar y cae, gyda'r dyfarnwr yn gorfod rhoi stop ar y gem wrth i George a Julian ddechrau ymladd, sy'n peri i weddill y ddau dîm ymuno yn y ffracas! Ond mae pethau'n raddol wella rhwng y ddau set o chwaraewyr nes eu bod yn ffrindiau mawr yn y diwedd – ac eithrio Tecwyn a'i gymar. Clasur o bennod – mae'n werth prynu'r DVD am hon ar ei phen ei hun.

Y bennod olaf ar y DVD yw *O Mam Bach*. Cefndir hon yw fod mam Wali yn wael yn ei gwely ac yna'n gorfod mynd i'r ysbyty oherwydd ei gwaeledd. Yn y cyfamser, mae Arthur wedi cael ei ddewis fel rheolwr tîm y gynghrair i gêm o[…] tymor – sydd yn anrhydedd mawr y[…] feddwl o ("Fy awr fawr i ydi hon"!), […] sydd ddim i'w weld yn gymain[…] anrhydedd pan mae'n dod i'r amlwg […] efe oedd y dewis cyntaf ar gyfe[…] swydd. Na'r ail, na'r trydydd ...

Yn y cyfamser, mae George a Wali […] mynd i edrych am fam Wali yn yr ysb[…] ond yn darganfod ei bod wedi ma[…] Neu ddim, fel mae hi'n troi allan, […] fod Wali wedi cymysgu enwau wardi[…] ysbyty – "mae enwau'r mynyddo[…] ma'n nrysu i," ac wedi mynd i'r w[…] anghywir i nôl ei fam. Ar ôl yr […] bennod, nid yw hon i'w gweld […] ddoniol a hynny, ond mae hynny […] dweud nad yw Tseina yn boblog iaw[…] gymharu ag India. Mae'n dal yn ben[…] dda iawn o'r gyfres a buaswn yn edr[…] arni drosodd a throsodd.

Ni soniaf lawer am y ddau bwtyn 'ecs[…] ar y DVD – gan nad ydynt yn para p[…] munud rhyngddynt, nid ydynt yn ddo[…] iawn nac yn ychwanegu dim i'r D[…] Wast ar amser ydynt, gyda chwer[…] ffug ar ôl bob jôc, sy'n dweud y cy[…] Mae'n debyg mai yno dim on[…] wahaniaethu rhwng y Fideo a'r DV[…] maent, i geisio cyfiawnhau ta[…] ddrytach am y DVD i bobl sydd ddim […] gweld manteision amlwg y ffurf dr[…] Fideo. Ond mae'n fain arna'i […] feirniadaeth – dylid mynd allan a phr[…] hwn ar bob cyfri, hyd yn oed os y[…] ond am y bennod *Tibetans […] Mowthwalians*. Ond nid oes rhaid m[…] allan i'w brynu – mae cyfle i chwi en[…] copi drwy brofi gymaint o ffan o'r gy[…] yr ydych yn ein Cystadleuaeth C'm[…] Midffîld.

# CYSTADLEUAETH

**Cyfle i ennill DVD C'MON MIDFFÎLD 5**

1. Pa rif sydd ar grys George?
2. Ym mha safle y mae Tecwyn yn chwarae?
3. Pa dri sy'n eistedd ar bwyllgor tîm Bryncoch?
4. Beth yw enw'r dafarn ym Mryncoch?
5. Pa gymeriad a chwaraeir gan Siân Wheldon?
6. Pwy sydd wastad yn "chwarae efo hwnna"?
7. Beth yw enw brawd Arthur Picton?
8. I ba wlad yn Ewrop aeth tîm Bryncoch yn 1990?
9. Pwy oedd gwrthwynebwyr Bryncoch yn Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle 1990?
10. Pwy yw noddwr Bryncoch sydd â'i enw ar y crysau?

Dylid anfon yr atebion i'r cyfeiriad: Menter Iaith Gwynedd, Cymad, Parc Busne[…] Porthmadog, Ffordd Penamser, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9GB, neu ebostio'[…] atebion i: **menteriaith@cymad.org** erbyn Gorffennaf 15fed 2004.

# Adolygu FFILMIAU

**PHONEBOOTH** Ydach chi wedi gweld y ffilm *Phonebooth*? ... Naddo? Wel rydw i am roi fy marn arni ...

Mae'r ffilm yn cynnwys yr actor talentog Colin Farrell fel y prif actor sydd yn gweithio fel cynhyrchydd arno, ac yn mynd i'r bocs ffôn i ffonio'i gariad. Ar ôl gorffen ar y ffôn, mae'r ffôn yn canu eto, mae Colin Farrell, sy'n chwarae rhan Stu yn codi'r ffôn ac mewn rhyw lais dwfn yn dweud wrtho:

*Isn't it funny, when you hear a phone ring somebody has to answer it.*

Mae'r dyn ar ochr arall y ffôn yn bygwth Stu i ddweud wrth ei wraig ei fod yn cael perthynas gyda dynes arall. Mae'n bygwth saethu Stu.

Ynghanol y ffilm mae yna ddynes eisiau defnyddio'r ffôn, ond tydi Stu ddim yn cael rhoi'r ffôn i lawr. Daw dyn draw i'r bocs ffôn, a thynnu ar Stu, ac mae rhywbeth yn digwydd i Stu ... Bydd yn rhaid i chi wylio'r ffilm i ddarganfod mwy!

Tystysgrif oedran y ffilm yw 15, ac mae'r ffilm yn para ryw awr a chwarter o hyd, ac yn sicr yn werth gwario'r amser yn ei gwylio.

*Aled Hughes*

**VAN HELSING** Yn ddiweddar, fe welais i'r ffilm newydd *Van Helsing*. Ffilm gyffrous ydyw, gan gynhyrchwyr y ffilmiau *The Mummy* a *The Mummy Returns* ydi hon. Mae'n sôn am ddyn or enw Van Helsing sy'n mynd i Transylvania i ladd Count Dracula. Ar ei daith, mae'n dod ar draws anghenfil Frankenstein, Warewolf, a llawer o greaduriaid brawychus eraill. Hugh Jackman sy'n actio Van Helsing, ac mae un o actorion *Lord of the Rings* yn y ffilm yma hefyd. Mae'n ffilm ofnus, cyffrous a thywyll, ond, efallai ychydig yn hirwyntog tua'r diwedd. Nid yw'r sgript na'r stori yn wych, ond mae'r effeithiau arbennig yn gwneud i fyny am hynny. Nid hon yw'r ffilm orau i mi ei gweld erioed, ac nid oedd yr acenion gan yr actorion yn gredadwy iawn ychwaith. Ond, er hynny, roedd digon o ymladd, neidio, ac antur yn y ffilm i'm cadw i'n hapus ar brynhawn sadwrn glawog!

*Rhydian Lewis*

# T-Sgwrs rhwng rhai o gymeriadau'r Mabinogion

Cymeriadau:
Manawydan
Rhiannon (gwraig Manawydan)
Pryderi (mab Rhiannon)
Cigfa (gwraig Pryderi)

Roedd Manawydan a Pryderi allan yn hela efo Rhiannon a Cigfa. Pan oedden nhw'n dod adra i Ddyfed, roedden nhw'n gweld bod rhywun wedi rhoi hudoliaeth ar Ddyfed ac wedi gwneud i bawb heblaw hwy ddiflannu. Roedden nhw'n mynd i Loegr ac roedd Manawydan a Pryderi yn gwneud cyfrwyau i wneud arian. Ond roedden nhw'n rhy dda yn eu crefft, ac roedd y dynion yn y ddinas a oedd yn gwneud cyfrwyau cynt yn ceisio eu lladd nhw, o achos doedd neb yn prynu eu cyfrwyau hwy. Gadawodd y pedwar ohonynt y ddinas, felly, a symud i ddinas arall. Roedd Manawydan a Pryderi yn gwneud esgidiau. Dyma lle digwydd y sgwrs ganlynol.

Manawydan: Mae'n rhaid i ni adael Lloegr.

Pryderi: Pam?

Manawydan: Mae'r dynion sy'n gwneud esgidiau yn y ddinas yma yn ein casàu ni achos does neb yn prynu esgidiau heblaw am ein hesgidiau ni Mae ein hesgidiau ni yn rhy dda.

Pryderi: Ond roedd hyn yn digwydd y tro diwethaf, pan oeddan ni'n gwneud cyfrwyau yn y ddinas arall.

Manawydan: Dwi'n gwybod. Ond dwi'n meddwl y bydd yn rhaid i ni adael eto. Mae gen i ofn iddynt geisio ein lladd ni.

Pryderi: I ble'r awn ni?

Manawydan: Beth am fynd yn ôl i Ddyfed?

Pryderi: 'Dan ni ddim ym gallu mynd yn ôl i fano, does 'na ddim byd yno i fynd yn ôl iddo.

Manawydan: Dwi'n gwybod, ond yno mae ein gwreiddiau ni. Rydan ni'n berchen ar Ddyfed. Mae 'na hudoliaeth yno, rydan ni wedi cuddio am ormod o amser, rhaid i ni fynd yn ôl a gwneud rhywbeth i dorri'r hudoliaeth.

Pryderi: Efallai dy fod ti'n iawn, ond mae'n rhaid i ni ofyn i Rhiannon a Cigfa cyn penderfynu.

*(Mae Rhiannon a Cigfa yn dod i mewn)*

Rhiannon: Gofyn i ni be?

Cigfa: Ia, am beth wyt ti'n siarad?

Manawydan: Dydan ni ddim yn gallu aros yma. Mae'r cobleriaid yn y ddinas yn flin oherwydd fod pawb yn prynu ein hesgidiau ni.

Pryderi: Rydan ni ofn iddyn nhw drio ein lladd ni.

Rhiannon: Beth ydan ni'n mynd i'w wneud?

Manawydan: Dwi'n meddwl bod yr amser wedi dod i ni fynd yn ôl i Ddyfed.

Cigfa: Beth?

Manawydan: Gwranda arna i am funud. Mae hyn wedi digwydd o'r blaen, ac os ydan ni'n mynd i rywle arall yn Lloegr, dwi'n siŵr y bydd o'n digwydd eto. Ond, ar y llaw arall, rydan ni'n byw yn Nyfed, ac mae'n rhaid i rhywun dorri'r hudoliaeth yno, a does yna neb a all wneud.

Rhiannon: Dwi'n meddwl dy fod ti'n iawn. Dwi'n cytuno efo ti.

Cigfa: Dwi'n cytuno os ydi Pryderi yn cytuno hefyd.

Manawydan: *(i Pryderi)* Beth wyt ti'n feddwl?

Pryderi: Dwi ddim yn gwybod. Pam na wnawn ni ladd y cobleriaid os fydda nhw'n ymosod arnan ni?

Rhiannon: Paid a bod yn wirion. Mae yna lawer mwy ohonyn nhw. Does ganddon ni ddim siawns.

Cigfa: Ac mae'n rhaid i ni drio helpu Dyfed, Pryderi.

Pryderi: Iawn, ond sut ydan ni'n mynd i fyw yna?

Manawydan: Gallwn dyfu bwyd, a hela a physgota. Fe fydd yn anodd, ond daw yn haws, a bydd yn haws na dechrau eto mewn dinas arall, ac yna symud ymhen rhai misoedd o achos dydyn nhw ddim yn ein hoffi ni ychwaith. Allwn ni ddim symud o le i le trwy'r amser, mae'n rhaid i ni fynd adra.

Pryderi: Rwyt ti'n iawn. Dechreuwn am Ddyfed yn y bore.

Manawydan: Iawn.

*Alys Brown*


na-nôg

Llyfrau • Cryno ddisgiau • Fideo • DVD • CD-ROM
Jig-sô • Cardiau Cyfarch • Crysau-T • Fflagiau
Welsh books • CDs • Videos • DVD • CD-ROM
Jigsaw • Greeting Cards • T-shirts • Flags
*a llawer iawn mwy* and much more
37 Stryd Madog • Llandudno 01492 872284
Y Maes • Caernarfon 01286 676946
www.na-nog.com


## LLYGREDD

O dan y môr a'i donnau
Llawn llygredd erbyn hyn
Trafeilia'r sgerbwd llongau
Ar hyd yr ewyn gwyn
Llawn olew trwm a thywyll
Yn gollwng ambell dro
A physgod fel y brithyll
Yn marw'n ddu fel glo.

Pan fyddo'r môr yn berwi
A'r corwynt ar y don
Nid ydyw'r môr yn ddistaw
Does 'run pysgodyn llon
Mae'r llongau'i gyd yn torri
Pob un wan jac', bid siŵr
Mae pawb 'di clywed y stori
Am y dref sy dan y môr.

Ond pan fo'r môr yn berwi
A'r don yn chwipio'n syn
A'r wylan wen yn farw
A'r olew'n duo'r gwyn
Daw tinc rhyw gloch o rywle
A gwn yn eithaf siŵr
Fod llong a'i bol mewn gwagle
Yn gorwedd dan y môr.

Mae'r byd yn llawn problemau
Yn sbwriel, baw a nwy
A ffrwydriad fawr Chernobyl
Yn dyst o lygredd mwy
Trwy ofer esgeulustod
Y bobl yn y byd
Mae olew ar yr wyneb
Ac yno bydd o hyd.

## JÔCS CYMRAEG

*Pam fod caeau pêl-droed o hyd yn wlyb?*

Oherwydd fod y chwaraewyr i gyd yn driblo!!

Pan dw i'n chwarae golff mi fyddai o hyd yn gwisgo dau bâr o drowsus ... rhag ofn i mi gael twll mewn un!!

# Fight Night

Mae'r gêm *Fight Night* yn gêm foc gan y cynhyrchwyr EA Games. Ma gêm ar gael ar gyfer *Playstation 2 XBOX*, ac yn costio oddeutu £39.99.

Bocsio, yn amlwg yw pwrpas y gêm h Fe allwch ddewis unrhyw focsiwr o 3 focswyr trwyddedig (go wir), neu allwch greu bocsiwr eich hun. Gallw gymryd rhan mewn gornesau yn erb bocswyr eraill, neu ymarfer i wella e bocsiwr chi.

Nodwedd newydd yn y gêm hon *total punch control*. Dyma'r tro cyntaf nodwedd yma gael ei ddefnyddio me gemau bocsio, ac mae'n gweithio effeithiol iawn. Mae'n eich galluog reoli yn union ble rydych yn an dyrnau eich bocsiwr.

Mae graffeg y gêm yn wych, gyd bocswyr a'r stadiwm bocsio trwydde yn edrych yn union fel y maent go iaw Mae'r sain yn wych hefyd, g chaneuon gan fandiau enwog g gynnwys N.E.R.D. Fe all y gêm y barhau am byth gan eich bod yn ga cael gornest ar unrhyw adeg.

Buaswn i'n bersonol yn marcio 9/10 gêm hon.

Os ydych yn hoffi bocsio, yna mae'r g hon yn angenrheidiol i chi!

***Tomos Owens***


www.gwynedd.gov.uk/poblifanc
GWEFAN POBL IFANC
YOUNG PEOPLE's WEBSITE
youngpeople@gwynedd.gov.uk
poblifanc@gwynedd.gov.uk
www.gwynedd.gov.uk/youngpeople

Llys Ednowain
Canolfan Treftadaeth a Hostel
Trawsfynydd, Gwynedd
Ffôn 01766 770 324 Ffacs 01766 771 714
"Taith gyffrous drwy'r gorffennol,
Hwyliusdod wrth fwynhau'r presennol."
rheolwr.llys-ednowain@virgin.net www.trawsfynydd.com

menter a Busnes | JobCymru
Yn awyddus i wybod pa gyfleoedd sydd ar gael yn lleol?
Eisiau defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle?
Ymwelwch â JobCymru.com yr allwedd i'ch dyfodol!





## TWYNI TYWOD – ANHYSBYS

Ydach chi wedi clywed am *Anhysbys*? Wel, os ddim, band o bump disgybl chweched dosbarth Syr Hugh Owen yng Nghaernarfon ydynt.

Y pump aelod yw:
**Llŷr Gwyn Lewis** – Llais a gitâr fâs
**Rhodri Gwyn Jones** – Gitâr a llais
**Prysor Aled** – Allweddellau
**Alun Gwilym Williams** – Gitâr a llais
**Sara Mair Tomos** – Drymiau

Ffurfiwyd y band rhyw dair blynedd yn ôl. Ond mis Mawrth y flwyddyn yma fe wnaethant ryddhau E.P. newydd or enw *Twyni Tywod* sydd yn cynnwys wyth cân wedi eu cyfansoddi a'u hysgrifennu gan y band eu hunain, ac mae pob cân yn Gymraeg.

Fy nghân orau i yw *Chdi a Fi* – cân fachog iawn gyda digon o fynd ynddi. Sôn am fachgen eisiau merch, a hynny heb gywilydd o gwbl y mae, ac mae rhythm fachog y gân yma'n eich cael i gyd-ganu'n fuan iawn.

Mae *Twyni Tywod* ar gael nawr mewn siopau ar hyd a lled Cymru. Ewch i'w phrynu nawr, chewch chi mo'ch siomi.

***Erwain Alaw***

*Isod: Tanc a Graham Norton hefo Llion Williams – Noson Siôn a Siân yn y Llew Coch, Llanrwst*



## WYTHNOS CYMRAEG YN GYNTAF LLANRWST, MAWRTH 2004

**Yr Ymgyrch**

Yn ystod wythnos gyntaf mis Mawrth eleni, cynhaliwyd wythnos Cymraeg yn Gyntaf yn Llanrwst. Ymgyrch ydoedd gyda'r nôd o hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg ymysg siaradwyr Cymraeg, a cheisio codi proffil yr iaith ym mywyd pob dydd pawb yn yr ardal.

Golygai'r ymgyrch amrywiaeth o waith paratoi, gyda rhan helaeth o'r gwaith yn cynnwys mynd o amgylch busnesau'r dref yn cyflwyno'r syniad, gan geisio derbyn adborth ynglŷn ag egwyddor y cynllun gan berchnogion a staff siopau a busnesau Llanrwst.

Rhaid dweud fy mod wedi fy siomi ar yr ochr orau gan ymateb pobl y dref yn gyffredinol i'r ymgyrch. Ar y cyfan, roedd trigolion Llanrwst yn gefnogol dros ben i'r syniad, ac roedd y gefnogaeth hon yr un mor frwd ymysg y di-Gymraeg a'r Cymry Cymraeg eu hunain.

Hwn oedd y tro cyntaf i'r wythnos gael ei chynnal yn Llanrwst, a bwriad Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw dysgu gwersi o'r ymgyrch yma eleni, a gweld os oes modd cynnal yr ymgyrch yn yr un ardaloedd yn flynyddol, gan ei ymestyn i drefi newydd ac ardaloedd eraill hefyd.

**Hunanhyder**

Mae'n amlwg fod hunanhyder pobl ynglŷn â'r Gymraeg yn cynnyddu o hyd, gyda chenedlaeth newydd o siaradwyr Cymraeg yn tyfu'n gyson, a bellach ceir sawl lleoliad ac awyrgylch lle mae'r defnydd o'r Gymraeg yn gwbl ganiataol.

Mae gan lawer o sefydliadau cyhoeddus ymrwymiad rŵan i osod y Gymraeg yn gydradd gyda'r Saesneg, ac mae cyfrifoldeb gan y rhai sydd wedi ymrwymo i wneud hynny, ac i gynnig gwasanaethau yn y Gymraeg yn ogystal â'r Saesneg. Fe ddylen ni fynnu eu defnyddio nhw.

Mae nifer cynyddol o gwmnïau preifat yn troi at ddefnyddio'r Gymraeg ac yn cynnig gwasanaethau Cymraeg, ac mae'n bwysig iawn ein bod yn defnyddio'r gwasanaethau yma.

Os oes gennym syniadau ar sut i wella gwasanaethau neu os nad ydym yn hapus efo'r gwasanaeth Cymraeg sydd ar gael gan sefydliad cyhoeddus, yna mae'n gwbl ganiataol i ni wneud awgrymiadau, neu i leisio ein pryderon wrth y sefydliad hwnnw.

**Y Gweithgareddau**

Gwelodd yr wythnos sawl gweithgaredd diddorol, rhai yn gyfarwydd ac eraill efallai nad oedd mor gyfarwydd. Yn eu mysg, cafwyd noson dda iawn gyda Llion Williams yn arwain cwis a chystadleuaeth Siôn a Siân yn y Llew Coch, Llanrwst. Cafwyd cyfraniad nid bychan gan ambell gymeriad lleol, a hoffwn ddiolch i bawb a gyfrannodd i lwyddiant y noson. Canlyniad y weithgaredd oedd noson llawn hwyl drwy gyfrwng y Gymraeg, a noson a lwyddodd hefyd i ddiddanu nifer o rai di-Gymraeg yr ardal hefyd.

Bu Myrddin ap Dafydd yn gweithio gyda rhai o blant Ysgol Bro Gwydir ac Ysgol Dyffryn Conwy, a chafodd y plant flas ar gyfansoddi barddoniaeth. Cafwyd darn hyfryd ganddynt yn dilyn thema'r ardal leol.

I orffen yr wythnos, cafwyd *Noson Ffraethineb* yng Ngwesty'r Dolydd, lle bu timau o Felin y Coed, Nebo a Phadog, Llangernyw, Penmachno, Llanddoged, a Llanrwst yn cystadlu. Daeth yn amlwg yn gynnar fod gallu geiriol yn fyw ac yn iach yng nghyffiniau Dyffryn Conwy – a hynny wrth wrando'n unig ar y beirniaid a'r arweinydd! Roedd hi'n braf cael tamaid i'w fwyta a llymaid i'w yfed, fel saib o'r chwerthin parhaus! Gwynfor Griffiths oedd arweinydd y noson, ac ef hefyd oedd â'r dasg o ddewis y tasgau, ac Aelwen a Tomos John Williams oedd y beirniaid. Edrychwn ymlaen at y cyfarfod nesaf …

Os oes gan unrhyw un ddiddordeb yng ngwaith Bwrdd yr Iaith Gymraeg neu'r Fenter Iaith yn lleol, neu sylwadau o unrhyw fath yn gysylltiedig â'r iaith, yna cysylltwch â ni ar bob cyfri. Gellir cysylltu efo Dafydd o'r Bwrdd ar 01492 642 108, neu Meirion o'r Fenter ar 01492 642 357. Er bod yr wythnos bellach wedi dod i ben, parhawn i siarad *Cymraeg yn Gyntaf!*

***Dafydd***



# Deud Eich Deud!

# CHWALU'R CHWECHED?

Apêl s'gynna i yn y pwt yma i'r rhai ohonom sydd yn boenus ynglŷn â'r hyn sy'n cael ei gynnig inni ar ôl inni gyrraedd 16 oed. Mae'r sefyllfa yn gwneud i ngwaed i ferwi, ond mi ddeuda i rywfaint o'n hanes i chi ga'l dallt pam dw i'n corddi.

Dw i'n byw ym Mhenrhyndeudraeth yn Sir Feirionnydd, ac mae plant Penrhyn ar ôl bod yn ysgol fach Cefn Coch, yn cael mynd ar drên i Ysgol Ardudwy, Harlech. A dyna ddigwyddodd i mi. Giang glên ohona ni yn ei heglu hi am Harlech bob bora am bum mlynedd. Chwerthin a chwysu, a'r athrawon druan yn trio dal pen rheswm efo ni, ac yn cynhyrfu'n lân am nad oedd 'na siâp ar ein gwaith cwrs ni. Ninnau wedyn fel rhyw sliwennod efo'n wynebau diniwed yn creu esgusodion amrywiol i ohirio wynebu'r dyddiad cau. Cael hwyl yn gweld Mr … yn chwythu ffiws oherwydd bod rhywun wedi troi'r tapiau nwy ymlaen. Sagas di-ddiwedd cariadon. Cynnwrf Eisteddfod yr Urdd, a'r sioeau cerdd … Ond daeth diwedd ar y dyddia' da.

Am ryw reswm anhysbys, mae rhywun yn y goruwch leoedd wedi honni fod disgyblion de Gwynedd yn well eu byd wrth adael eu hysgolion yn 16 oed, gadael llawer o'u ffrindia a'r athrawon oedd erbyn hyn wedi gweld drwy ein sioe ac yn gw'bod pwy oedd isio cic neu hwb. Mae o i fod yn fwy llesol inni deithio tuag awr y dydd, a dod adra am 5 o'r gloch, a chael darithwyr diarth. Ond mi fasa ni'n cael teimlo'n grand yn fyfyrwyr coleg yn hytrach na disgyblion ysgol, a chael gwared â'r cudyllod o athrawon.

Ychydig oedd wedi dotio efo'r syniad yma, ac roedd 'na dipyn o grafu pen yn ein plith ynglŷn â lle oedd orau i ni fynd. Aeth dipyn i Ddolgellau, rhai i Bwllheli, rhai Glynllifon – a phob safle dros 20 milltir i ffwrdd, a rhai i Goleg Menai hyd yn oed sydd oddeutu 40 milltir i ffwrdd.

Teimlai rhai ohonom, fodd bynnag, y byddem ar ein hennill o fod mewn awyrgylch ysgol, gydag athrawon yn ein rhoi ar ben ffordd, a breintiau a chyfrifoldeb bod mewn chweched dosbarth. Felly, aeth un i ddosbarth chwech Brynrefail, dau i chweched dosbarth Friars ym Mangor, un arall i David Hughes ym Mhorthaethwy, a dwy hyd yn oed i'r chweched mewn ysgolion yn Lloegr. Am chwalfa! Rydan ni gyd wedi'n gwasgaru ar hyd a lled y wlad, yn teithio milltiroedd, ac mae'n cymunedau ni'n diodda o'r herwydd.

Mi benderfynais i fynd i'r chweched dosbarth yn Ysgol Dyffryn Nantlle, a dw i wrth fy modd yno. Grêt! 'Steddfod ysgol, ffair hydref, peintio 'stafell y chweched, trip i sglefrio, gemau hoci, a holl rhialtwch bywyd ysgol. Peidiwch a meddwl fy mod i'n erbyn colegau trydyddol. Mae'n siŵr eu bod yn iawn ar gyfer rhai sy'n byw mewn trefi, ond mewn ardal wledig fel Gwynedd, tydi o ddim y syniad gorau yn y byd, fel mae rhai o'r gwybodusion wedi cyfaddef, o'r diwedd. Y piti mawr ydi mod i rŵan yn ymroi i weithgareddau sy'n ymwneud â Dyffryn Nantlle, yn hytrach na'r ardal lle gefais i'n magu. Mae'r golled i gymunedau 'Stiniog, Tywyn, Botwnnog, Porthmadog, ac Harlech yn anfesuradwy.

Felly, gallwch ddychmygu sut o'n i'n teimlo pan gododd y busnes yma ynglŷn â'r bygythiad i ddyfodol dosbarthiadau chwech mewn ysgolion. Tydw i'm yn dallt y stwnsh ynglŷn â chyllido, a gwerth y pen, a'r holl eiriau pwysig 'ma sydd yn cael eu taflu o gwmpas y lle. Yr hyn dw i yn ei wybod, fodd bynnag, ydi'r golled sydd yna i ysgol heb chweched; dw i'n gwbod be' 'di colli athrawon ar adeg 'dach chi'n dechrau eu gwerthfawrogi; dw i 'di profi'r chwalfa o golli ffrindiau yn 16 oed. Ond dw i hefyd wedi profi'r holl fanteision o gael bod mewn chweched dosbarth; gweld y gymuned yn elwa; y fantais i'r ysgol wrth inni fentora disgyblion iau, a'r fantais bersonol i mi o ysgwyddo cyfrifoldebau a dyletswyddau.

Ond wyddoch chi be? Does 'na neb wedi ymgynghori â mi a'm tebyg i weld be 'da ni'n feddwl ynglŷn â'r mater yma. … sy'n cael ein heffeithio gan y syniad 'ma, a tydio mond yn iawn ein bod n… cael deud ein deud. Peidiwn a gad… iddyn nhw wneud penderfyniadau sy… yn effeithio ar ein dyfodol ni a'n bro… a'n chwiorydd heb fynegi ein teimlad… Efallai eich bod mewn coleg trydyd… ac yn hapus a bodlon ar y ddarpariae… yno, ond apeliaf atoch i feddwl am y r… a fyddai'n hoffi parhau mewn ysgol, … yn poeni am eu dyfodol. Ewch draw… stondin Cymdeithas yr Iaith yn yst… Eisteddfod yr Urdd ac ychwanegw… eich enw at ddeiseb sydd yn gofyn a… ddiogelu dyfodol dosbarthiadau chwe… yn y gobaith y bydd rhywun yn gwran… ar lais yr union rai sy'n cael … heffeithio.

***Lois Mihangel Adams***

**Cystadleuaeth Pêl-droed 2004–2005 (Sir Conwy)**

Beth am drio cystadleuaeth? Mae'r gystadleuaeth yn un syml, yr unig beth sydd rhaid i chi ei wneud i gystadlu ydi ceisio dyfalu pwy fydd enillwyr amrywiol gystadlaethau ym myd pêl-droed yn ystod tymor 2004–2005. **Bydd tâl o £1 i drio'r gystadleuaeth.**

***CYNGHRAIR CYMRU***
***1af :***
***2il :***
***3ydd :***

***CYNGHRAIR SBAEN***
***1af :***
***2il :***
***3ydd :***

***CYNGHRAIR YR EIDAL***
***1af :***
***2il :***
***3ydd :***

***CWPAN EWROP:***

***Dyddiad cau: Medi 10fed 2004***

Anfonwch eich cynigion, ynghyd a'ch tâl, i:

Deiniol Thomas, Menter Iaith Conwy, Tŷ Apothocary, Sgwar Ancaster, Llanrwst, Sir Conwy, LL26 0LG.

Menter Iaith Gwynedd

**YN HYRWYDDO'R GYMRAEG YN Y GYMUNED**

- Grantiau: arwyddion, gweithgareddau, cyfieithu, deunyddiau ac ati;
- Llogi offer cyfieithu'n rhad • Cymorth i fusnesau • Cyfieithu bwydlen…
- Cymorth i drefnu digwyddiadau … A llawer mwy! Cysylltwch â ni:

**Menter Iaith Gwynedd, Parc Busnes, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9GB.**
**Ffôn: 01766 512300 Ffacs: 01766 512608 E-bost: menteriaith@gymad.o…**

# FFERMWYR IFANC

## BETH SYDD MEWN ENW?

Rwy'n aelod o glwb ffermwyr ifanc Dyffryn Nantlle ers dros dair blynedd bellach. Tydw i ddim yn ffarmwr (chewch chi mohonof yn agos at unrhyw fuwch, heb sôn am darw), a thrwy'n ffrindiau y dois i wybod am y clwb. Mae'r clwb yn cyfarfod yn wythnosol, ac yn wir, wedi tyfu'n aruthrol yn ystod yr amser dw i 'di bod yn aelod. Ond, os oes un peth yn fy mhoeni am y ffermwyr iafnc, y ddelwedd 'ffarmwr' ydyw (ew tractor!).

Does dim rhaid bod yn ffarmwr i fod yn aelod o'r clwb, dyma un peth sydd yn camarwain pobl. Oes rhaid newid yr enw? Dim yn fy marn i. Mae'r enw yn dweud mai clwb ydyw, dyna'r peth pwysicaf. Yn ogystal â hyn, mae'n wir mai ffermwyr ydi llawer o'r aelodau, ac mae llawer o'r gweithgareddau yn cynnwys ffermio (barnu, cneifio, a.y.y.b.) Does dim gorfodaeth i gystadlu. Beth yw'r enwau eraill sydd ar gael, beth bynnag, heb iddynt fod yn rhy debyg i'r clwb ieuenctid lleol? Pam newid rhywbeth sy'n gweithio? Tydi'r deugain (a mwy) o aelodau sydd yn cyfarfod yn Nyffryn Nantlle ddim i weld yn poeni. Mae digon o gyfleon yn y clybiau i gael hwyl, ac i gystadlu mewn ardal, a thrwy Gymru. Mae eisteddfodau, siarad cyhoeddus, y rali, y Sioe Frenhinol, cwis, bowlio deg, ffug eisteddfod, a llawer mwy i edrych ymlaen amdanynt yn ystod y flwyddyn!

Peidiwch â barnu'r ffermwyr ifanc wrth eu henw, fel na ddylech farnu llyfr o'i glawr, neu berson wrth ei wyneb. Mae llawer o hwyl i'w gael. Beth sydd mewn enw beth bynnag?

***Mari Glynne Davies***

## RALI FFERMWYR IFANC MEIRIONNYDD

Ar **Ddydd Sadwrn 19eg o Fehefin** cynhelir **Rali Ffermwyr Ifanc Meirionnydd ar Fferm Ystumgwern, Dyffryn Ardudwy**. Bydd y diwrnod yn dechrau am 10.00 y bore gyda llond berfa o weithgareddau – tynnu rhaff, crefft, cneifio, taflu wellingtons a llawer, llawer mwy.

Gyda'r nos bydd yr enwog **DJ BUSTACH** yn cynnal dawns yn Maes Artro, Llanbedr i ddechrau am 8.30 yr hwyr. Bydd bar a lluniaeth hefyd. Felly am ddiwrnod llawn hwyl, cofiwch am Rali Ffermwyr Ifanc Meirionnydd. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Swyddfa'r Sir ar **01341 423 846**.

***Dylan Wyn Williams***

## PROFFIL:
## MARK JONES (Chwaraewr Rygbi)

*Enw:* Mark Anthony Jones. *Llysenw:* Boyce.
*Safle:* Asgellwr.
*Taldra:* 6 Troedfedd 2 fodfedd.
*Dyddiad geni:* 7/11/1979.
*Ymddangosiad cyntaf dros Lanelli:* 1998 yn erbyn Pontypridd.
*Clybiau blaenorol:* Llanelwedd, Llanymddyfri.
*Uchelgais:* Chwarae i Gymru lawer eto, ac efallai i'r Llewod.
*Hoff le:* Rhwng y llinell gais a'r llinell farw.
*Hoff fwyd:* Pasta a physgod. *Hoff ddiod:* Ysgytlaeth.
*Hoff ffilm:* Dumb and Dumber.


bydda'n rhan o **wyliau** unigryw **cymru**




2004

**www.dathlucymru.com**
www.celebratingwales.com


## TOCYN AM FYNEGI BARN

Wel, beth ydach chi'n feddwl o'r **Pastwn** newydd? Byddwn yn gwerthfawrogi derbyn unrhyw sylwadau, boed yn ganmoliaeth neu feirniadaeth. Gallwch anfon eich sylwadau drwy'r post i: Menter Iaith Gwynedd, Cymad, Parc Busnes Penamser, Porthmadog, Gwynedd, LL49 9GB; neu ebostio sylwadau i menteriaith@cymad.org.

Rhoddir tocyn llyfr yn wobr i'r sawl a gyflwynir y sylwadau adeiladol gorau yn ein tyb ni.

Dyddiad cau ar gyfer anfon sylwadau yw Gorffennaf 15fed 2004.


**Menter Iaith Conwy**

Yn hyrwyddo'r Gymraeg yn lleol
Promoting the Welsh language locally

# CWM NI

PAPUR BRO CWMDERI A'R CYLCH




# LLOND Y DERI YN DATHLU!

**Mae Pobol y Cwm yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 oed y mis nesaf. Ers darlledu y bennod gyntaf ar 16 Hydref, 1974, gwelwyd nifer o newidiadau dros y degawdau.**

Beth fyddai gan rai o hen gymeriadau Cwmderi i'w ddweud heddiw, tybed, o wybod bod un o gyfresi teledu mwyaf hirhoedlog Prydain, **Pobol y Cwm**, yn dathlu ei thrideg?

"Wel y jiw, jiw," fyddai Maggie Post yn ei ddweud, heb os, a'i hwyneb yn pelydru fel lleuad lawn. Rhyw fwmblian dan ei fwstash "Siort ora!" fyddai Harri Parri siawns, tra byddai Mrs Mac yn fwy na bodlon i godi gwydryn, dim ond i chi ei "wneud e'n un mowr!"

Wel, mae'r gyfres wedi cyrraedd carreg filltir bwysig iawn, ac mae'r atodiad arbennig hwn o bapur bro Cwmderi a'r Cylch, *Cwm Ni*, yn mynd ati i hel atgofion a holi aelodau cast a chriw heddiw.

Wyddoch chi mai *Pentre Felin* oedd yr enw gwreiddiol i fod ar y gyfres sebon pan ddaeth ei chynhyrchwyr yn y BBC at ei gilydd am y tro cyntaf? Penderfynwyd yn fuan ar **Pobol y Cwm** a dyna roi ar droed draddodiad Cymraeg newydd.

Bryd hynny roedd y ddrama yn cylchdroi o amgylch y capel, y dafarn a chartref hen bobl Brynawelon, lleoliadau digon nodweddiadol a chyfarwydd i wylwyr. Yn fuan fe ddaeth cymeriadau Harri Parri, Jacob Elis, Megan a Reg, TL a Sabrina yn gymeriadau cig a gwaed i ni gyd.

Dros y blynyddoedd rhoddodd y gyfres lwyfan i rai o dalentau actio mwyaf Cymru, gan gynnig cyfle cyntaf i nifer o actorion ifanc hefyd – efallai mai Ioan Gruffudd yw un o gyn-aelodau enwocaf y gyfres.

Ar ôl darlledu yn wythnosol am bedwar ar ddeg mlynedd, ym mis Medi 1988 fe ddechreuwyd darlledu y gyfres bum gwaith yr wythnos – yr unig sebon Prydeinig i wneud hynny ar y pryd. Cyflwynwyd cymeriadau a lleoliadau newydd ac aeth y gyfres o nerth i nerth.

Bellach mae gwylwyr o bob cwr o Brydain yn gallu mwynhau mynd a dod y cymeriadau, diolch i dechnoleg ddigidol, a heddiw y neges gan y criw hwyliog yn y llun uchod ydi, dewch i ddathlu! Dathlu'r ffaith bod **Pobol y Cwm** wedi llwyddo i ddiddanu cynulleidfaoedd cyhyd ac mai hi hefyd yw'r unig opera sebon teledu Cymraeg ei hiaith yn y byd i gyd!

Yn ystod mis Hydref bydd S4C yn darlledu nifer o raglenni i ddathlu'r pen-blwydd arbennig, tra bydd straeon difyr a dramatig y gyfres yn gafael yn y dychymyg.

Fel y byddai'r hen Meic Pierce yn ei ddweud, "Hwre 'ŵan!"

Ymlaen at y 30 mlynedd nesaf!

**Pobol y Cwm 30**

# CWMDERI HEDDIW...

**gair gan Bethan Jones, cynhyrchydd y gyfres**



*Hawdd yw dwedyd Dacw'r Wyddfa. Nid eir drosti ond yn ara'.*

Dechreuais fy swydd hefo **Pobol y Cwm** fel cynhyrchydd y gyfres yn Rhagfyr 2001. Roedd yn destun sbort i ambell un fod y sipsi fach a ddaeth i'r Cwm yn yr 80au wedi dychwelyd! Mae llun NUALA ar ddrws fy swyddfa yn fy atgoffa yn ddyddiol mor sydyn mae'r blynyddoedd yn mynd heibio. Bryd hynny, unwaith yr wythnos am gyfnod penodol yn y flwyddyn roedd **Pobol y Cwm** yn rhedeg. Erbyn hyn mae'n gyfres ddyddiol.

Gallaf ddweud â'm llaw ar fy nghalon, er i mi weithio sawl tro fel cyfarwyddwr ar y gyfres, nad oeddwn yn wir sylweddoli mor enfawr oedd y dasg o'i llywio. Ar y diwrnod cyntaf eisteddais i lawr gydag Eirlys Hatcher, y cynhyrchydd gweithredol sydd wedi gweld llawer iawn i gynhyrchydd yn mynd a dod. Roedd yna gymaint roeddwn i eisiau ei gyflawni, ond lle i ddechrau? A'i geiriau doeth hi oedd - *Sut mae bwyta Eliffant ? Un darn ar y tro!* Felly dyma gychwyn - fesul tamaid!

Mae hi wedi bod yn ddwy flynedd a hanner ddiddorol a d'eud y lleiaf. Sialens newydd bob dydd bron. Ond yr un peth dwi wedi dod i werthfawrogi yw mai gwaith tîm yw **Pobol y Cwm** - tîm anferth yn cynnwys Adran Gynhyrchu, Adran Olygyddol, actorion, storïwyr, awduron, timoedd gwisgoedd a cholur, camerâu, sain a chynllunio, gyda phawb yn cydweithio i gynhyrchu 260 o raglenni y flwyddyn.

Rwy'n ymwybodol mai yma i warchod y gyfres dros dro ydw i, ac mae'n rhaid bod yn ofalus wrth wneud newidiadau. Mae ymateb y gynulleidfa yn holl bwysig, ac mae darllen yr amrywiaeth barn am gymeriadau a straeon sydd wedi eu lleisio ganddoch chi drwy gyfrwng gwefan y gyfres wedi bod yn hanfodol bwysig wrth gynllunio'r dyfodol.

Rwy'n teimlo'n freintiedig iawn i fod wrth y llyw yn ystod y flwyddyn bwysig hon ac yn gobeithio y byddwch yn parhau i fwynhau gwylio hynt a hanes trigolion Cwmderi am flynyddoedd i ddod.



*Pwy yw'r sipsi hon tybed?!*

## Mae GILLIAN ELISA wedi bod yn aelod o'r cast ers y cychwyn cyntaf ac yma mae'n rhannu ei hatgofion o ddyddiau cynnar Pobol y Cwm...



Yr atgof gyntaf sydd gen i o'r gyfres **Pobol y Cwm** yw, yn naturiol ddigon, fy niwrnod cyntaf. Bryd hynny roedd ymarferiadau yn cael eu cynnal yng Nghapel Ebenezer ar Charles Street ynghanol Caerdydd. O, roeddwn i mor nerfus yn cerdded mewn! Y peth oedd, chi'n gweld, roeddwn i wedi gwylio actorion fel Gaynor Morgan Rees ar y teledu yn gwneud *Fo a Fe* a Lisabeth Miles, wedyn 'ny, mewn dramâu cyfnod gwych. Ac roedd gweithio law yn llaw â'r mawrion yma yn gwneud i mi deimlo'n ben ysgafn!

Dwi'n meddwl fy mod i wedi bod mewn golygfeydd gyda Dil a Beti Harries yn gyntaf (mam a dad) a chwaraewyd gan Haydn Edwards a Buddug Williams (sydd bellach yn chwarae Anti Marian). Os wy'n cofio'n iawn, sôn oeddwn i am fynd am gyfweliad ar gyfer jobyn yn siop y Post, gyda Mrs Mathias.

Roedd gwallt Sabrina mewn *bunches* ac roedd hi'n cnoi *chewing gum*. Hefyd, roedd hi'n cario radio gyda strap o gwmpas ei hysgwydd. Roedd hi o flaen ei hamser, chi'n gwel'!

Ac yna cwrdd â Maggie Post – yr anfarwol Harriet Lewis, wrth gwrs. Dwi'n cofio recordio'r olygfa honno fel tae hi'n ddoe! Ac fe gawsom ni sbort, allai 'weud wrthoch chi. Roeddwn i'n cael trafferth cadw wyneb stret ac roedd Harriet yr un peth. Y ddwy ohonom yn deall ein gilydd i'r dim! Lot o wherthin iach, ond yn cymryd ein gwaith o ddifri, r'un pryd.

Dyddiau difyr yn wir, ac mae'r hwyl a'r gwaith caled yn parhau!



*Maggie 'Post', Sabrina a Dewi Roderick*

## Beth am gymeriadau newydd y Cwm? Mae LLINOR AP GWYNEDD hefyd yn dathlu ei phen-blwydd yn 30 eleni...



*Llinor ap Gwynedd fel Gwyneth*

Ma' amser yn mynd yn gyflym! Rwy' wedi bod yn rhan o gast **Pobol y Cwm** ers dros flwyddyn bellach. Yn ystod y cyfnod hwnnw mae Gwyneth wedi gadael tipyn o argraff ar nifer o drigolion y Cwm.

Mae hyn yn golygu bod ei chymeriadu yn llawer o hwyl! Rwy'n disgwyl ymlaen yn wythnosol i dderbyn y sgriptiau, er mwyn gweld yn union beth mae hon yn mynd i 'neud nesaf. Gallaf eich sicrhau nad yw Gwyneth yn bwriadu tawelu am sbel fach!

Er fy mod yn hoff iawn o'i phortreadu, rwy'n amau yn fawr y byddwn yn ffrindiau gyda hi tase hi'n gymydog i mi. Efallai ei bod yn agos i'w theulu, ond nid oes llawer yn medru dylanwadu arni. Mae hi'n manteisio ar wendidau y bobl sydd o'i chwmpas, ac yn mwynhau gwneud ffyliaid ohonynt.

Fel actores, chwarae yn groes i'r graen sydd yn aml yn rhoi'r mwynhad mwyaf. Byddai portreadu cymeriad sydd yn rhy debyg i mi yn ddiflas ar ôl cyfnod. Ond, efallai bod un peth yn debyg rhwng Gwyneth a fi, serch hynny... hoffwn i gael tatŵ!

Bellach, rwy' wedi setlo yn hapus iawn yn y Cwm dychmygol. Mae'r gyfres wedi bod yn rhan o mywyd i erioed.

Ac mae **Pobol y Cwm** a minnau yn dathlu ein pen blwydd yn ddeg ar hugain eleni.

Hir oes i'r ddwy ohonom!

**Medde chi:** *"Dwi'n trefnu bod fy nheulu yng Nghymru yn danfon copïau VHS o Pobol y Cwm i fi'n fisol rhag i fi golli unrhywbeth! Fy hoff stori i oedd y triongl serch rhwng Emma, Diane a Steffan yn 2001..."* ANITA WILLIAMS, SELAND NEWYDD *

*"Dwi'n dwli ar Pobol y Cwm! O'n i arfer ei wylio fe pan o'dd e ar BBC2. Dychmygwch fy moddhad pan oeddwn yn medru ei weld yn Llundain ar deledu digidol gydag isdeitlau. Dwi'n mwynhau'r iaith Gymraeg gymaint ac yn dechrau dysgu! Mae yna lawer o storïau sy'n aros yn y cof - fel babi Denzil yn marw a Meic a Derek yn rhedeg y caffi."* KIRSTEN MILNER YN WREIDDIOL O DDENMARC *



# YDYCH CHI'N COFIO...?



*Dau ddireidus - Edgar Sutton a Meic Pierce*




*Dathlu'r 'Dolig yn y Deri ar ddechrau'r 90au*



*Bella ...*



*Harri ...*



*Mab peniog Reg a Megan a wyneb cyfarwydd heddiw!*



*Gêm rygbi gyda Ray Gravelle*



*Pethau'n closio rhwng Beth a Hywel*



*Trip i Lydaw yn 1986*



*Reg a Megan y... peintiau yn ...*



*Nadolig 1995 - Teg, Cassie, Mrs Mac a Glan yn dathlu yn y Deri*



*Teulu'r Jonesiaid*



*Pwy yw'r Denyn 'bon?*



*Mrs Macca...*



*Teulu'r Monks ...*

**Medde chi:** *"Mae Pobol y Cwm wedi fy ysbrydoli fi i ddysgu Cymraeg a dyna beth dwi'n ei wneud ar hyn o bryd!"* STEVE EVANS, WRECSA...

* Sylwadau nifer o ffans y gyfres oddi ar wefan **Pobol y Cwm**

# CYSTADLEUAETH CROESAIR Y CWM



**Ar Draws:**

1 Yma y bydd y Jonesiaid yn macsu (6)
4 Enw canol answyddogol Dic Ashurst (5)
7 Torrwr gwallt y Cwm a ffrind da i Julie (4)
11 Dyma ble y bydd Meic Pierce yn mynd pan ar ei ffordd i'r Deri (5)
12 Safle Steffan yn y gwaith o'i gymharu â Stacey (5)
13 Os mai benyw yw 24 ar draws, dyma yw Dai (5)
14 Dinistr (7)
15 a 41 i lawr Enw'r cwrw hynod o gryf, yn ôl ei enw, cyn iddo newid yn Cwrw Cadno! (3,3)
18 Roedd sied Harri Parri ym Mrynawelon yn adeilad clyd (3)
20 Nid felly Pobol y Cwm, sydd ymlaen am bum noson (5)
22 Mynydd y garreg las, sydd nepell o Gwmderi (7)
24 Un o drigolion gwreiddiol y Cwm. Byddai'n gweithio yn y Post gyda Maggie (7)
27 Rhywbeth y gellir ei weld wrth grych anhrefnus? (7)
28 Y rhai sy'n gyfrifol am 14 ar draws? (7)
29 Cariad tad-cu Debbie Moon (Rhian Haf) / Cariad, anwylder, serch? (5)
32 Fyddai dim un yn wynebu Garry pan fo tymer ddrwg arno! (3)
35 '_ _ _ y Plod" fyddai Mark yn galw'r glas yma! (3)
37 Diwedydd (7)
40 Adeg y llifogydd roedd sawl un du uwchben y Cwm (5)
42 Megis Caerfyrddin a Llanelli, sydd o fewn cyrraedd i'r Cwm (5)
43 Hanfod hoeden ddideimlad? (5)
44 Enw cyntaf go-iawn Mrs Mac?(4)
45 ..... ac enw cyntaf cyfansoddwr cerddoriaeth Pobol y Cwm (5)
46 Mae'n fecanic gweddol, ond mae'n anlwcus gyda'r merched! (6)

**I Lawr:**

1 Llys Barn, lle bu Dyff a'i fab droeon o flaen eu gwell (7)
2 Merch sy'n etifeddu (5)
3 Dyma fydd Teg yn ceisio ei wneud wrth ddynwared Elvis ...... (7)
5 ..... yr un mae'n ei addoli! (5)
6 Y dyn sy'n wynebu Meic dros y bar (4)
8 Am gwta hanner hon y pery pennod o Pobol y Cwm (3)
9 Cyfenw go-iawn Meic (5)
10 Enw canol mab 24 ar draws (6)
13 Yr enw yn llawn ar yr hylif sy'n rhoi blas ar sglodion Cassie (7)
16 Arwrgerdd (4)
17 Swydd Doreen Bevan pan oedd hi'n fos ar Harri Parri (6)
19 Ergydion (6)
21 Dyma fyddai Hywel yn ei ddefnyddio i ysgrifennu ar y bwrdd du (5)
23 Heb afiechyd, yn heini a chryf (3)
24 Dim cwrw yn y Deri? Dyna anniddorol! (3)
25 Ongl sgwâr (7)
26 Swydd Cai a Hywel ar un adeg (4)
30 Gyrrwr y lori gaca ers talwm .....(6)
31 .... a hoff weithgaredd ei fodryb! (7)
33 Mae Teg yn arddangos un i brofi ei fod yn gymwys i yrru'r 34 i lawr (7)
34 Dyma a fynnir pan fo rhywun yn galw Deri Deithio (5)
36 Un sebon ydi Pobol y Cwm .....(5)
38 ..... ac mae angen un ar gyfer pob pennod (5)
39 Ffermwr y Deri Fawr ers talwm, gŵr Sylvia a chyflogwr cyntaf 30 i lawr (4)
41 Gweler 15 ar draws

**GWOBR**

Ar ôl cwblhau'r croesair, mae'r llythrennau sydd yn y sgwariau llwyd yn creu gair sy'n gysylltiedig â **Pobol y Cwm**. Anfonwch y gair cudd atom, ac fe allwch chi fod yn un o dri enillydd lwcus i dderbyn copi o lyfr newydd William Gwyn *Cyfrinachau'r Cwm* a gyhoeddir gan Y Lolfa i gyd-fynd â dathliadau y pen-blwydd yn drideg.

Anfonwch eich ateb ar gerdyn post at: Cystadleuaeth Croesair Pobol y Cwm, S4C, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU erbyn dydd Llun, 11 Hydref, 2004.

# Straeon yr hydref...

**Cymeriadau newydd:**
Mae gweinidog ifanc a'i wraig, Owen a Ffion Morgan yn cyrraedd Cwmderi y mis hwn. Mae'r cwpwl yn benderfynol o ddechrau teulu ond yn wynebu trafferthion mawr yn eu hymdrechion. A pha gyfrinach mae'r gweinidog parchus yn cuddio am ei orffennol?

**Cariad:**
Mae Sheryl yn wynebu dilema wrth iddi barhau i gael ei thynnu bob ffordd rhwng Garry a Darren ac mae Julie yn cyfaddef wrth Dwayne ei bod yn fodlon gadael Cwmderi er mwyn i'r ddau ohonynt allu bod gyda'i gilydd.

Achub eu priodas yw bwriad Dai a Sabrina ond oes modd i'r ddau ddod i delerau â phryder a brad y gorffennol. Mae perthynas Derek a Diane wedi dod i ben erbyn hyn, ond oes yna rywun newydd ar fin dod i fywyd Derek tybed?

**Trychineb:**
Mae si yn y gwynt hefyd fod trychineb fawr ar y gorwel fydd yn siglo'r pentref at ei seiliau...cofiwch wylio!

POBOL Y CWM
8.00PM LLUN - GWENER
Ailddarllediad bob nos am 6.00pm ar S4C digidol
Omnibws bob prynhawn Sul gydag isdeitlau Saesneg ar y sgrîn

## Dyma'r rhaglenni y gallwch edrych ymlaen i'w gweld ar S4C o gwmpas cyfnod y dathlu:

**O Flaen dy Lygaid - Pobol y Cwm Nos Fercher, 13 Hydref**
Ail gyfle i weld y rhaglen hon sy'n cymryd cip tu ôl i'r llenni ar y gyfres sebon boblogaidd, gan gynnwys trip rhai o drigolion Cwmderi i Iwerddon i ffilmio yng nghwmni cymeriadau'r opera sebon Wyddeleg, *Ros na Rún*.

**Cyngerdd Deri Ddathlu Nos Sadwrn, 16 Hydref**
Cyfle i weld y gyngerdd arbennig a berfformiwyd ym Mhafiliwn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd a'r Cylch gydag aelodau o gast **Pobol y Cwm** ddoe a heddiw yn cymryd rhan.

**Dechrau Canu Dechrau Canmol Nos Sul, 17 Hydref**
Rhifyn arbennig o'r gyfres boblogaidd hon yn dod o Gapel Caersalem Pontyberem yng Nghwm Gwendraeth gydag actorion ac aelodau o dîm cynhyrchu **Pobol y Cwm**.

# CYSTADLEUAETH



Hilton Cardiff

Cyfle i ennill diwrnod ar set **Pobol y Cwm** (dydd Llun, 25 Hydref) a noson mewn gwesty moethus (dydd Sul, 24 Hydref) i un person lwcus a gwestai. Y cyfan sy'n rhaid ei wneud yw ateb y cwestiwn yma:

**Pryd y darlledwyd y bennod gyntaf un o Pobol y Cwm?**

Anfonwch eich ateb ar gerdyn post at: Cystadleuaeth Pobol y Cwm, S4C, Parc Tŷ Glas, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DU erbyn dydd Llun, 11 Hydref, 2004.